# Adroddiad Blynyddol Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2016-2017

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“y Ddeddf”) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno cynllun yn esbonio sut y maent, wrth arfer eu swyddogaethau, yn bwriadu cynnal a hyrwyddo Llywodraeth Leol yng Nghymru. Cyhoeddwyd y ‘Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol’ (“y Cynllun”) cyfredol yn 2008.

1.2 Mae Adran 73 o’r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad yn esbonio sut y cafodd y cynigion yn y Cynllun eu rhoi ar waith ym mhob blwyddyn ariannol. Mae’r adroddiad hwn yn gwneud hynny ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17.

## 2 Diwygio Llywodraeth Leol

2.1 Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2016, datblygodd Llywodraeth Cymru drefniadau newydd ar gyfer diwygio llywodraeth leol ar ôl cynnal trafodaethau ac ymgysylltu'n eang ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.

2.2 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol gynigion y Llywodraeth mewn Papur Gwyn yn dwyn y teitl, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' ar 31 Ionawr 2017.

2.3 Roedd y dull newydd o weithredu wedi'i seilio ar drefniadau gorfodol a systematig i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithio'n rhanbarthol i gyflwyno amrywiaeth o wasanaethau, gan barhau â rhai agweddau ar y dull blaenorol o weithio, fel mesurau i greu democratiaeth leol fwy agored a hygyrch a gwella'r fframwaith perfformio.

2.4 Yn unol â'r cynigion hyn, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y byddai'n ystyried sut y gellid diwygio'r system ehangach o ariannu llywodraeth leol, gan greu system decach a mwy cynaliadwy o gynorthwyo awdurdodau lleol yn y dyfodol.

2.5 Daeth yr ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn i ben ar 11 Ebrill 2017. Cafwyd 164 o ymatebion gan amrywiaeth eang o ymatebwyr. Mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ac mae adroddiad cryno wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

2.6 I hybu'r gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu'r agenda i ddiwygio llywodraeth leol, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diwygio Llywodraeth Leol. Mae aelodau o'r Grŵp wedi'u henwebu gan Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru cynrychiolwyr ar y Grŵp hefyd ac mae'r cadeirydd yn annibynnol.

# 3 Partneriaeth

## Cyngor Partneriaeth Cymru

3.1 Cyngor Partneriaeth Cymru (“y Cyngor Partneriaeth”), ynghyd â’i weithgorau, yw’r prif fforwm statudol lle y gall Gweinidogion Cymru a llywodraeth leol gynnal trafodaethau a chydweithio.

3.2 Yn y cyfarfod a gynhaliwyd fis Rhagfyr 2016, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ei fod yn parhau i annog llywodraeth leol i gyfrannu mwy at y broses o bennu’r agenda a thrafod pynciau allweddol. Datblygwyd rhaglen waith fanwl, wedi’i seilio ar awgrymiadau aelodau o’r Cyngor Partneriaeth ar gyfer eitemau i’w trafod, a hon fydd yn llywio agenda’r cyfarfodydd nesaf. Cytunwyd hefyd y dylai’r Cyngor Partneriaeth gyfarfod yn amlach, o leiaf dair neu bedair gwaith y flwyddyn. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd fis Rhagfyr 2016, cytunodd y Cyngor Partneriaeth i ailwampio’r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ac mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17 i ddatblygu Cynllun newydd.

## Cyngor Partneriaeth y Gweithlu

3.3 Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru a byddant yn trafod materion strategol yn ymwneud â’r gweithlu drwy Gymru, a hynny drwy drefniant tridarn. Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn gyfrwng i hybu’r broses o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus. Cynhaliwyd cyfarfod ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2016 ac eto ym mis Mawrth 2017 o dan gadeiryddiaeth naill ai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol neu Brif Weinidog Cymru. Yn ystod y flwyddyn, cytunwyd ar ganllawiau ar ddefnyddio contractau oriau heb eu gwarantu a sicrhau bod tâl uwch swyddogion yn fwy tryloyw (sef canllawiau a ddatblygwyd gan Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus) yn ogystal â’r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi. Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu hefyd wedi parhau i gefnogi a monitro’r modd y defnyddir Cod y Gweithlu Dwy Haen yng Nghymru.

3.4 Mae Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn cynnwys is-grwpiau sy’n canolbwyntio ar wasanaethau datganoledig, sef addysg, iechyd a llywodraeth leol, ac mae’r rhain wedi cyfarfod drwy gydol y flwyddyn gan adlewyrchu trefniadau tridarn y prif Gyngor i fwrw ymlaen â gwaith penodol. Mae’r Is-grŵp Cynllunio a Symudedd y Gweithlu, a gaiff ei gadeirio gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, yn bwrw ymlaen â gwaith yn ymwneud â chynllunio a symudedd y gweithlu.

**Yr Is-grŵp Cyllid**

3.5 Un o bwyllgorau sefydlog y Cyngor Partneriaeth yw'r Is-grŵp Cyllid ac fe'i sefydlwyd i ystyried cyllid llywodraeth leol a materion cyllido. Mae braslun o'i gylch gwaith a'i waith yn yr adran 8 o'r adroddiad hwn, sef Materion Ariannol. Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Grŵp yn ystod 2016 - 2107. Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol gadeiriodd yr holl gyfarfodydd.

3.6 Ymhlith pethau eraill, trafododd y Grŵp y canlynol:

- Pwysau ariannol, cyfleoedd a hyblygrwydd yn y dyfodol;
- Y fformwla ar gyfer dosbarthu setliad Llywodraeth Leol 2016-2017.

3.7 Cafodd y Grŵp gymorth gan weithgorau technegol, yr Is-grŵp Dosbarthu a'r Grŵp Cyllid Cyfalaf a Buddsoddi. Cynhyrchodd yr Is-grŵp Dosbarthu ei adroddiad blynyddol ar y newidiadau yn y fformwla a ddefnyddir i ddosbarthu'r setliad i awdurdodau unedol yn 2017-2018. Trafododd y Grŵp Cyllid Cyfalaf a Buddsoddi y dulliau ariannu arloesol a'r newidiadau diweddaraf i'r rheoliadau cyfrifyddu ac archwilio ac i reoliadau cyllid cyfalaf.

3.8 Paratowyd a chyhoeddwyd setliadau 2017-2018 ar gyfer yr awdurdodau unedol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru yn unol â chytundebau partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, heddluoedd Cymru a'r Swyddfa Gartref.

# 4 Gwella Trefniadaeth ac Atebolrwydd Llywodraeth Leol

### Craffu

4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymwneud â Rhwydwaith y Swyddogion Craffu, Swyddfa Archwilio Cymru ac eraill i ddiffinio'r gydberthynas rhwng y partneriaethau a fydd yn helpu i roi'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ar waith. Mae'r gwaith o ddatblygu polisi wedi canolbwyntio ar y modd y mae pwyllgorau craffu awdurdodau lleol yn craffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r heriau a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu cynnig. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus baratoi Canllawiau i awdurdodau lleol ar arfer craffu effeithiol wrth ddwyn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfrif am y modd y maent yn cyfrannu at y nodau llesiant. Mae'r canllawiau wedi'u cyhoeddi erbyn hyn.

### Panel Taliadau Annibynnol Cymru

4.2 Cynhyrchodd Panel Taliadau Annibynnol Cymru ei adroddiad blynyddol a oedd yn cynnwys ei benderfyniadau ynghylch cyflogau cynghorwyr sir, cynghorwyr cymuned, swyddogion yr awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, a daeth y rhain i rym ym mis Mai 2017. Parhaodd y Panel i wneud argymhellion ar gyfer tâl prif weithredwyr a phrif swyddogion y cynghorau sir. Mae'r awdurdodau dan sylw wedi derbyn y rhan fwyaf o argymhellion y Panel, er nad pob un. Cynhaliodd y Panel gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu'n targedu cynghorau tref a chymuned i geisio'u barn am y trefniadau presennol. Bydd y sylwadau'n sail i drafodaethau yn y dyfodol.

### Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

4.3 Cwblhaodd y Comisiwn ei waith paratoadol ar gyfer ei arolwg o'r 22 o etholaethau yng Nghymru a gaiff ei gynnal rhwng 2017 a 2021. Cyhoeddodd ei bapur ar Bolisi ac Arfer wrth Arolygu Trefniadau Etholiadol, ei Bolisi ar Faint Cynghorau a Rhaglen Arolygu Trefniadau Etholiadol 2017-2021. Dechreuodd y Comisiwn ei raglen o arolygiadau fis Ionawr 2017 drwy ystyried y trefniadau yng Ngheredigion, Gwynedd a Phowys a bydd yn parhau i adolygu'r etholaethau fesul tri. Y nod yw sicrhau bod y trefniadau etholiadol diweddaraf ar waith ym mhob awdurdod lleol erbyn etholiadau llywodraeth leol 2022.

### Cynyddu Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol

4.1 Llwyddodd Llywodraeth Cymru i gwblhau ei rhaglen " Amrywiaeth mewn Democratiaeth". Nod y rhaglen hon oedd creu mwy o amrywiaeth mewn cynghorau'n dilyn etholiadau 2017. Cafodd Arweinydd y Prosiect gymorth gan Grŵp Llywio a oedd yn cynnwys

cynrychiolwyr o’r prif bleidiau gwleidyddol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, Diverse Cymru, Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth (WMAD), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Chwarae Teg, Un Llais Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau Democrataidd Cynghorau Conwy ac Abertawe.

4.4 Cynigiodd y rhaglen gynllun mentora a oedd yn caniatáu i ddarpar ymgeiswyr gysgodi cynghorwyr presennol. Cofrestrodd cyfanswm o 65 o gynghorwyr fel mentoriaid yn ystod oes y prosiect ac ymunodd 51 o bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y rhaglen i gael eu mentora gan un neu ragor o fentoriaid. Cawsant gyfle i gysgodi’r cynghorwyr wrth iddynt ymgymryd â’u gwaith o ddydd i ddydd gan ddysgu mwy am rôl aelodau etholedig. Trefnwyd digwyddiadau hyfforddi a rhwydweithio ar gyfer y mentoriaid a’r rhai roedd yn eu mentora ynghyd â rhaglen i gyflogwyr. Trefnwyd rhaglen ymgysylltu â chyflogwyr hefyd i esbonio’r manteisio sydd ynghlwm wrth gael cyflogai sy’n gwasanaethu fel cynghorydd. Dywedodd 21 o’r 51 o’r rhai a gafodd eu mentora eu bod yn bwriadu sefyll yn yr etholiad ym mis Mai 2017.

# 5 Gwella Gwasanaethau Llywodraeth Leol

## Buddsoddi i Arbed

5.1 Mae'r brif Gronfa Buddsoddi i Arbed wedi parhau i fuddsoddi mewn prosiectau ar hyd a lled Cymru. Cangen ar wahân i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yw Cronfa Buddsoddi i Arbed - Twf Gwyrdd, sef menter ar y cyd â Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig i helpu sector cyhoeddus Cymru i gyrraedd targedau lleihau allyriadau carbon. Dros y 12 mis diwethaf, buddsoddwyd cyfanswm o £17 miliwn mewn prosiectau arbed ynni. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu prosiectau i'w hariannu yn 2017-2018 a'r tu hwnt.

5.2 Yn ystod 2016-2017 lansiwyd Cronfa Arloesi ac Arbed mewn partneriaeth â Nesta, elusen arloesi, Prifysgol Caerdydd a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac roedd hyn yn ddatblygiad pwysig yn hanes y Gronfa. Mae gan y gronfa newydd gyllideb o £5 miliwn sydd wedi'i diogelu ac a ddyrannwyd o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed graidd. Ei diben yw buddsoddi mewn prosiectau mwy arloesol sydd â mwy o risg ynghlwm wrthynt, gan greu lle a chymorth ymarferol i gynnal profion a gwaith ymchwil dwys, ac i werthuso prosiectau er mwyn rhoi pob cyfle iddynt lwyddo. Yn ogystal â datblygu portffolio o brosiectau sy'n gwella gwasanaethau ac yn arbed arian, nod y gronfa yw datblygu corff o waith ymchwil a fydd yn dangos pam mae rhai prosiectau'n methu ac eraill yn llwyddo.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

5.3 Diwygiwyd y broses o baratoi cynlluniau cymunedol integredig o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a roddwyd sail statudol i'r broses. Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol i annog cyrff i gydweithio'n lleol.

5.4 Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2016. Eu tasg gyntaf oedd paratoi asesiad o lesiant lleol ar gyfer eu hardaloedd.

5.5 Cynhaliwyd proses ymgynghori eang wrth i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi'r asesiadau dros fisoedd yr haf a'r hydref yn 2016 cyn ymgynghori'n ffurfiol ynghylch yr asesiadau drafft ddechrau 2017. Cyhoeddwyd yr asesiadau cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017.

5.6 Cynlluniodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2016-2017 i'w gwneud yn haws iddynt rannu arfer da; i hybu capasiti a gallu lleol i gynnal asesiadau

dibynadwy ac i'w hysgogi i gyfuno adnoddau; ac i ddarparu set o ddata cyffredin fel man cychwyn ar gyfer y sail dystiolaeth.

5.7 Cynhaliwyd dau ddigwyddiad fis Tachwedd 2016 i ganiatáu i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried y cynnydd a wnaed ac i'w helpu i symud o'r cyfnod asesu a dechrau'r broses o nodi blaenoriaethau ar gyfer y camau nesaf.

**Gwasanaethau Cymdeithasol**

5.8 Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2014, gan roi fframwaith deddfwriaethol ar waith er mwyn trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

5.9 Drwy gydol 2016-2017, canolbwyntiodd Llywodraeth Cymru ar gynorthwyo rhanddeiliaid allweddol o faes llywodraeth leol, iechyd a'r trydydd sector i weithredu Deddf 2014, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016.

5.10 Defnyddiwyd grant Cyflawni Trawsnewid, gwerth £3 miliwn, i helpu i roi Deddf 2014 ar waith yn 2016-2017. Targedwyd £2.85 miliwn o'r grant i helpu awdurdodau lleol i gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid a'r GIG i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith, gan adlewyrchu'r gofynion a nodir yn Neddf 2014 i gyrff gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r cyllid hwn wedi'i drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2017-18.

5.11 Cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2016. Yn 2016-17 gweithiodd Llywodraeth Cymru gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys llywodraeth leol, i ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol a fydd yn helpu i roi Deddf 2016 ar waith. Mae rheoliadau a chanllawiau statudol yn cael eu datblygu fesul tri cham. Yn 2016-17, canolbwyntiwyd ar y cam cyntaf, a oedd yn ymdrin â llawer o'r ddeddfwriaeth graidd yn ymwneud â'r gweithlu, a daeth i rym ym mis Ebrill 2017. Mae'r ail gam yn mynd rhagddo'n awr, ac mae hyn yn ymdrin â'r materion gweithlu sy'n weddill, a rheoliadau a materion arolygu'n ymwneud â gwasanaethau preswyl i blant ac oedolion a gofal yn y cartref. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch y rheoliadau a'r canllawiau statudol drafft dros fisoedd yr haf 2017. Y bwriad yw gosod ail gam y pecyn deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol cyn diwedd 2017. Mae cam 3 yn gorgyffwrdd â diwedd cam 2 ac mae wedi dechrau'n ddiweddar pan ffurfiwyd grwpiau technegol i roi cyngor ynghylch datblygu'r rheoliadau sy'n weddill o dan y Ddeddf hon. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â gwasanaethau eirioli, maethu a mabwysiadu a lleoliadau i oedolion. Bydd y broses yn parhau ddechrau 2018, gyda'r bwriad o osod y pecyn deddfwriaethol terfynol ddiwedd 2018.

5.12 Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol Gofal Cymdeithasol yw olynydd Cynghrair Arweinyddiaeth Cenedlaethol y Gwasanaethau

Cymdeithasol. Fforwm traws-sector a thrawsbleidiol yw hwn i drafod y prif faterion sy'n effeithio ar ofal cymdeithasol, ac mae gwleidyddion a swyddogion llywodraeth leol yn aelodau ohono ynghyd â chynrychiolwyr o'r sector iechyd a'r trydydd sector a dinasyddion. Cynhaliwyd dau gyfarfod o Fwrdd y Bartneriaeth Genedlaethol yn 2016-17 a thrafodwyd materion fel diwygio llywodraeth leol, sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru a thaliadau uniongyrchol.

5.13 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithredu dau o brif ymrwymiadau Symud Cymru Ymlaen, sef ei chynllun llywodraethu pum mlynedd:

- cynyddu uchafswm y cyfalaf y gall pobl ei gadw os bydd eu hawdurdod lleol yn codi tâl am ofal preswyl, o £24,000 i £30,000. Drwy hynny, gall pobl gadw mwy o'r cyfalaf y maent wedi gweithio'n galed i'w ennill pan fydd angen gofal preswyl arnynt. Y nod yn y pen draw, yw codi'r uchafswm i £50,000 yn ystod y blynyddoedd nesaf ac mae'n cyd-fynd â'r uchafswm a bennwyd ar gyfer gofal yn y cartref sy'n cyfyngu ar y swm y mae'n rhaid i bobl ei dalu am ofal yn eu cartrefi eu hunain.

- Diystyru'r Pensiwn Anabledd Rhyfel yn llwyr wrth gynnal asesiad ariannol cyn codi tâl am ofal cymdeithasol. Gan hynny, ni fydd cyn-filwyr anabl yn gorfod defnyddio'u pensiynau anabledd i dalu am eu gofal.

**Y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF)**

5.14 Yn 2016-2017, defnyddiwyd £60 miliwn o'r Gronfa Gofal Canolraddol i gefnogi mentrau'n ymwneud â helpu pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a hefyd i gefnogi gwasanaethau integredig i bobl ag anableddau dysgu a phlant ag anghenion cymhleth a gwasanaeth awtistiaeth integredig.

5.15 Mae'r Gronfa'n cael ei goruchwylio gan y byrddau partneriaeth rhanbarthol newydd a sefydlwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae wedi annog awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector drwy Gymru i weithio mewn partneriaeth a chydweithredu i wella neu i ddatblygu modelau cynaliadwy o ofal a chymorth. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau un pwynt mynediad, cynlluniau i gydgysylltu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, dulliau ataliol a dulliau ail-alluogi. Mae hefyd wedi caniatáu i dimau ymateb cyflym, gwasanaethau gofal dementia a gwaith cymdeithasol saith diwrnod ddatblygu. Mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn dangos bod y Gronfa wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Dyma rai enghreifftiau:

- Defnyddiwyd £235,000 i ariannu Timau Cyrff Gwirfoddol Canolraddol Sir Benfro i greu mwy o gyfleoedd i bobl fyw'n annibynnol yn y gymuned ac i leihau unigrwydd cymdeithasol. Erbyn 31 Mawrth 2017, roedd 1,300 diwrnod gwely wedi'u harbed

ac roedd 130 o bobl wedi osgoi mynd i’r ysbyty. Dywedodd pob un o’r rhai a fanteisiodd ar y gwasanaeth fod pethau wedi gwella o’i herwydd.

- Yng Nghwm Taf, defnyddiodd y tîm sy’n gweithio gyda chleifion ag anghenion rhyddhau cymhleth £100,000 bron i ddatblygu gwasanaethau cydlynol sy’n cynnwys gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gofal yn y gymuned, gofal cymdeithasol a chyrff gwirfoddol. Hyd at 31 Mawrth 2017, roedd y cynllun hwn wedi cynorthwyo dros fil o bobl.

5.16 Mae’r Rhaglen Lywodraethu’n cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod y gronfa bwysig hon yn parhau. Bydd arian refeniw gwerth £50 miliwn ac arian cyfalaf gwerth £10 miliwn ar gael i ranbarthau yn 2017-2018. Mae’r Gronfa wedi’i hailfrandio, a’r Gronfa Gofal *Integredig* yw ei henw’n awr a hynny er mwyn adlewyrchu ei chylch gwaith ehangach ac mae’n awr yn cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth y byrddau partneriaeth rhanbarthol ar gyfer integreiddio. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu gofalwyr at amcanion y gronfa am y tro cyntaf. Bydd y newidiadau hyn yn caniatáu i’r Gronfa gael ei defnyddio i helpu i roi’r Ddeddf ar waith.

**Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol**

5.16 Ar 29 Medi 2014, comisiynodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol Banel Annibynnol i gynnal adolygiad o dirweddau dynodedig yng Nghymru. Yr Athro Terry Marsden o Brifysgol Caerdydd gadeiriodd y panel adolygu ac roedd John Lloyd Jones a Dr Ruth Williams yn aelodau.

5.17 Gwnaeth yr Adolygiad Annibynnol o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru 69 o argymhellion yn ymwneud â chynigion a sylwadau niferus ynghylch dibenion, egwyddorion, gweledigaeth, modelau llywodraethu, cynllunio ac ariannu. Gan fod nifer a chwmpas yr argymhellion yn sylweddol iawn, roedd angen ymgymryd â rhagor o waith i ddeall eu buddion a’u canlyniadau posibl.

5.18 Mae’r Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas AC wrthi’n arwain Gweithgor Tirweddau Cymru yn y Dyfodol sy’n ymdrin â’r argymhellion hyn. Mae’n cynnwys cynrychiolwyr o’r parciau cenedlaethol, AHNE, grwpiau budd, busnesau a llywodraeth leol ac mae’r Gweithgor yn dilyn dulliau cydweithredol o weithio.

5.19 Ym mis Mai 2017, cyhoeddwyd adroddiad o’r enw Tirweddau Dyfodol: Cyflawni dros Gymru (Adolygiad o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru. Mae’r cynigion yn gosod y tirweddau dynodedig ar lwybr i wella’r rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn eu hardaloedd a gweithio tu hwnt i'w ffiniau presennol. Mae'n manteisio ar y cryfderau a’r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth bartneriaethau a chydweithio gwirioneddol. Wrth wneud hynny, mae'n hyrwyddo mwy o hyblygrwydd o safbwynt strwythurau fel y gellir diwallu anghenion lleoedd a chymunedau.

## Cydnerthedd

5.20 Mae Gweinidogion Cymru wedi parhau i weithio'n agos gydag uwch swyddogion y gwasanaethau brys, llywodraeth leol ac asiantaethau eraill i baratoi at argyfyngau sifil drwy Fforwm Cydnerthedd Cymru. Ym mis Mehefin 2016, cymerodd Prif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ran mewn ymarfer cenedlaethol i sicrhau bod trefniadau ar waith i'r asiantaethau gwahanol ymateb i ymosodiad terfysgol yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r trefniadau hyn ac agweddau eraill ar barodrwydd i ymateb i argyfwng.

## Tân

5.21 Cynhaliwyd tri chyfarfod rhwng y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a Chadeiryddion yr Awdurdodau Tân ac Achub a/neu'r Prif Swyddogion Tân yn ystod 2016-2017. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod bob mis o leiaf rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Prif Swyddogion Tân ac Achub

5.22 Yn y Papur Gwyn "Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' y cyfeirir ato ym mharagraff 2.2 , nodir bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu trefniadau llywodraethu'r Awdurdodau Tân ac Achub ynghyd â'r modd y cânt eu hariannu, a'r trefniadau ar gyfer rheoli eu perfformiad. Mae cynigion yn cael eu datblygu i ymgynghori'n llawn ynghylch hyn maes o law.

5.23 Sefydlwyd tasglu amlasiantaeth o arbenigwyr o'r gwasanaeth tân, yr heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Swyddfa Dywydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i leihau ac, os oes modd, i ddileu tanau ar laswelltir. Lansiwyd Ymgyrch Dawns Glaw ym mis Mawrth 2016 i gyflwyno gweithgareddau addysgol, gweithgareddau difyrru a gweithgareddau gorfodi'n ymwneud â'r prif resymau dros danau ar laswelltir. Mae'r rhaglen lwyddiannus hon wedi parhau yn 2017-18.

5.24 Ym mis Medi 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, gyfres o flaenoriaethau ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub i hybu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau ymrwymiad lleol i'r rhaglen gydweithredol hwn.

## Y Lluoedd Arfog

5.25 Cynhaliwyd dau gyfarfod o Grŵp Arbenigwyr y Lluoedd Arfog, o dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, yn ystod 2016-2017. Gan fod cynrychiolwyr o asiantaethau gwahanol ar y Grŵp hwn, mae'n gyfle gwych i weithio ar y cyd. O ganlyniad, cafodd Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog ei

adolygu a pharatowyd dogfen Croeso i Gymru i aelodau'r Gwasanaeth a Llwybr Tai i Gyn-filwyr. Mae'r Grŵp wedi pennu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a bydd yn gweithio i'w rhoi ar waith yn ystod 2017-2018.

5.26 Cynhaliwyd cynhadledd Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog yn ystod 2016-2017, ac roedd yn gyfle i ryngweithio, rhannu arfer da a hyrwyddo cynlluniau i gydweithio'n agosach a gwella trefniadau lleol i sicrhau bod anghenion cymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu hintegreiddio'n llawn. Mae'r digwyddiadau'n cynnig sylfaen i ddatblygu prosiectau ar y cyd ac i annog sectorau gwahanol i gydweithio.

## Addysg

### Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol

5.27 Mae'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, a seiliwyd ar drefniadau i awdurdodau lleol gydweithio, ac i ysgolion gynorthwyo'i gilydd, wedi helpu i wella addysg yn sylweddol. Mae'r model cenedlaethol yn gydymdrech i ganiatáu i gonsortia weithio ar ran awdurdodau lleol i arwain, trefnu a chydgysylltu newidiadau sy'n gwella perfformiad ysgolion ac addysg pobl ifanc. Gyda'i gilydd, maent yn ganolog i'r broses o gyflawni'n huchelgais o greu system addysg hunanwella yng Nghymru. Mae'r dull rhanbarthol hwn o weithio'n parhau i fod yn allweddol i'r broses o wella canlyniadau dysgwyr ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda nhw i sicrhau bod y cymorth y maent yn ei gynnig yn galluogi'n dysgwyr i gyflawni eu potensial. Yn y dyfodol, byddwn yn ystyried sut y mae angen datblygu'r Model Cenedlaethol i sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben yng nghyd-destun ein rhaglen diwygio addysg.

### Gwaith Arolygu Awdurdodau Lleol a Chonsortia

5.28 Cafodd pob un o'r 22 awdurdod lleol eu harolygu gan Estyn rhwng 2010 a 2013. Roedd angen rhywfaint o waith dilynol yn achos pymtheg ohonynt, a rhoddwyd saith yng nghategorïau statudol gwaethaf Estyn sef 'angen gwella'n sylweddol' neu 'mesurau arbennig'. Roedd yr arolygiadau a gynhaliwyd yn 2014-2015 yn canolbwyntio ar fonitro'r cynnydd a wnaed yn yr awdurdodau hyn. Erbyn mis Ionawr 2016, roedd yr holl awdurdodau a roddwyd mewn categori a oedd yn galw am rywfaint o waith dilynol, wedi'u tynnu o'r categorïau hyn.

5.29 Ers hynny, mae Estyn wedi paratoi rhaglen o ymweliadau gan arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol i sicrhau bod y gwaith herio, monitro a chymorth yn parhau.

5.30 Mae Estyn wedi datblygu cynadleddau gwella i sicrhau bod awdurdodau lleol sy'n peri pryder yn cael cymorth a her penodol. Mae Estyn yn treialu'r dull hwn o weithredu mewn tri awdurdod lleol yn 2017. Diben y cynadleddau gwella hyn yw cynorthwyo awdurdodau i wella'u gwasanaethau addysg. Nid ydynt yn disodli arolygiadau llawn,

ond mae'n fesur dros dro sy'n cael ei weld yng nghyd-destun ehangach y gwaith y mae arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol Estyn yn ei wneud.

5.31 Mae'r arolygiaeth wrthi'n datblygu trefniadau arolygu newydd ar gyfer gwasanaethau addysg awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a datblygu fframwaith ac arweiniad drafft yn barod ar gyfer cynnal arolygiadau peilot yn 2017 a 2018.

5.32 Mae Estyn wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid i hybu'r broses o ddatblygu'r fframwaith arolygu newydd. Bydd y cylch newydd o arolygiadau gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn dechrau fis Medi 2018.

5.33 Cynhaliodd Estyn arolygiad o bedwar consortiwm addysg rhanbarthol rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2016 a bydd yn monitro cynnydd pob consortiwm ym mis Awst 2017.

## 6 Blaenoriaethau Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol

6.1 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'n rhoi diben cyffredin sy'n rhwymo mewn cyfraith - y saith nod llesiant - ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodedig eraill. Mae'n ymdrin â'r ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio, a gweithio gyda'i gilydd i wella llesiant Cymru. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer proses well o wneud penderfyniadau drwy sicrhau bod y cyrff cyhoeddus hynny yn ystyried yr hirdymor, yn helpu i atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu, yn gweithredu'n integredig ac yn gydweithredol, ac yn ystyried ac yn cynnwys pobl o bob oedran.

6.2 Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd llesiant ar y cyrff cyhoeddus hyn i roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith ac, wrth wneud hynny, mae'n pennu amcanion (llesiant) sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r cyfraniad gorau posibl ganddynt at y saith nod llesiant.

6.3 Ar 4 Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hamcanion llesiant cychwynnol. Cynlluniwyd y rhain i sicrhau ei bod yn cyfrannu cymaint ag y gallai at y saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Bryd hynny, ymrwymodd y Llywodraeth i adolygu'r amcanion yng nghyd-destun datblygu dull strategol o fwrw ymlaen â rhaglen *Symud Cymru Ymlaen* (2016-2021), sef y rhaglen Lywodraethu. Erbyn mis Ebrill 2017, roedd y cyrff cyhoeddus hynny y rhoddwyd dyletswydd gofal arnynt, wedi pennu eu hamcanion llesiant, gan gynnwys esbonio sut y maent yn cyfrannu orau at y nodau llesiant a pha gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni eu hamcanion.

6.4 Ym mis Mawrth 2016, gosodwyd dangosyddion cenedlaethol i fesur cynnydd yn ôl y saith nod llesiant gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae 46 o ddangosyddion a byddant yn caniatáu i'r Llywodraeth, Aelodau'r Cynulliad, a phob un yng Nghymru, weld y cynnydd a wneir ar lefel genedlaethol o ran cyflawni'r saith nod llesiant. Caiff Adroddiad Llesiant ei baratoi bob blwyddyn – cerdyn sgorio cenedlaethol newydd i fesur cynnydd yng Nghymru. Caiff Adroddiad Llesiant Blynyddol Cymru ei gyhoeddi o dan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Cyhoeddwyd hwn ar 25 Medi 2017.

6.5 Nid mesur perfformiad corff cyhoeddus (e.e. awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru) neu berfformiad gwasanaeth penodol (e.e. gwasanaethau cymdeithasol, addysg, cynllunio) neu berfformiad rhaglen/polisi (e.e. Twf Swyddi Cymru) yw diben y dangosyddion. Yn hytrach, maent yn mesur cynnydd a wneir drwy Gymru gyfan mewn perthynas ag agweddau gwahanol ar lesiant. Mae systemau eraill ar waith i fesur perfformiad cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â gwella gwasanaethau cyhoeddus.

**Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol**

6.6 Rhyddhawyd Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol cyntaf Llywodraeth Cymru ar 5 Mai 2017. Mae'n nodi'r prif dueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a allai effeithio ar Gymru yn y dyfodol, yn ogystal â rhai o'r ffactorau a allai ddylanwadu ar y tueddiadau hynny.

6.7 Mae'r adroddiad yn rhestru tueddiadau'r dyfodol o dan chwe thema, sef y boblogaeth, iechyd, yr economi a'r seilwaith, newid hinsawdd, defnyddio tir ac adnoddau naturiol a chymdeithas a diwylliant.

6.8 Ystyrir mai dim ond y cam cyntaf yw'r adroddiad hwn a'r bwriad yw datblygu adnodd Tueddiadau'r Dyfodol y gall holl sector cyhoeddus Cymru ei ddefnyddio.

## 6 Pwyslais ar Gymunedau

6.9 Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gydweithredu ag Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, y cyrff sy'n cynrychioli sector y cynghorau tref a chymuned, ynghyd â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i feithrin capasiti a gallu yn y sector.

6.10 Ym mis Hydref 2016, datblygodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol raglen weithredu i helpu i gryfhau ac adnewyddu'r sector yn y tymor canol – ystyried yr hyn y gellir ei wneud i gryfhau rôl cynghorau cymuned a gwella'r modd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu, gan ganiatáu iddynt ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau ac asedau mewn cymunedau lleol os dyna'u dymuniad.

6.11 Hefyd, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fwriad i gomisiynu adolygiad cynhwysfawr o gynghorau tref a chymuned i ystyried sut fath o gyrff fydd y rhain yn y dyfodol a pha fath o drefniadau fyddai'n gwasanaethu cymunedau lleol orau. Dechreuodd y panel adolygu ar ei waith fis Medi 2017 a bydd yn cyflwyno'i adroddiad ymhen blwyddyn.

## 7 Y Fframwaith Ariannol

7.1 Mae Is-grŵp Cyllid y Cyngor Partneriaeth yn fforwm sy'n rhoi cyfle i drafod materion ariannol llywodraeth leol nad oes modd eu hystyried mor fanwl yn y Cyngor Partneriaeth llawn. Mae'n ategu gwaith y Cyngor Partneriaeth sydd, fel rhan o'i gylch gwaith, yn ystyried materion ariannol yn ymwneud â diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid yn ystod 2015-2016 (mis Gorffennaf a mis Medi 2016 a mis Ionawr 2017). Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol gadeiriodd y tri chyfarfod

7.2 Ymhlith pethau eraill, trafododd y Grŵp y canlynol:

- ariannu cynghorau a'r heddlu yn y dyfodol;
- cyfleoedd i reoli problemau ariannu yn y dyfodol;
- adolygu hyblygrwydd o ran ariannu;
- trefniadau ar gyfer setliad Llywodraeth Leol 2017-2018.

7.3 Cafodd y Grŵp gymorth gan weithgorau technegol, yr Is-grŵp Dosbarthu a'r Grŵp Cyllid Cyfalaf a Buddsoddi. Cynhyrchodd yr Is-grŵp Dosbarthu ei adroddiad blynyddol ar y newidiadau yn y fformwla a ddefnyddir i ddosbarthu'r setliad i awdurdodau unedol. Trafododd y Grŵp Cyllid Cyfalaf a Buddsoddi y datblygiadau o ran cyllid cyfalaf. Paratowyd setliadau 2017-2018 ar gyfer yr awdurdodau unedol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru yn unol â chytundebau partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, heddluoedd Cymru a'r Swyddfa Gartref.

7.4 Cafodd data awdurdodau lleol ei gasglu, ei goladu a'i brosesu i baratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru 2014-2015 a ddefnyddiwyd, yn eu tro, i baratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y DU. Ar lefel swyddogol, trafodwyd materion ariannol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Ategwyd y broses ymgysylltu hon gan gyfarfodydd rheolaidd parhaus â Swyddogion Cyllid awdurdodau lleol i drafod amrywiaeth eang o faterion ariannol drwy Gymdeithas Trysoryddion Cymru, Grŵp y Prif Gyfrifwyr a Gweithgor Refeniw a Budd-daliadau Cymru. Ymgysylltwyd â materion yn ymwneud ag ariannu'r heddlu drwy Grŵp Ariannu ac Adnoddau Heddluoedd Cymru.

**Casglu a Rheoli Trethi**

7.5 Sefydlwyd y Grŵp Cyswllt Trethi yn 2016 o dan gadeiryddiaeth Rhaglen Gweithredu Awdurdod Refeniw Cymru. Mae aelodau'r Grŵp yn cynnwys Cyfarwyddwr Rhaglen Gweithredu'r Awdurdod Refeniw , Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Pennaeth polisi Trethiant Lleol Llywodraeth Cymru a swyddogion Refeniw a Budd-daliadau awdurdodau lleol.

7.6 Mae'r Grŵp Cyswllt Trethi yn canolbwyntio'n bennaf ar rannu arfer da ym maes casglu trethi, cynorthwyo â gwaith Rhaglen Gweithredu'r Awdurdod Refeniw, ac archwilio sut y gall yr Awdurdod Refeniw ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd yn y dyfodol.

## Atodiad

Y Ddarpariaeth Statudol

Mae adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”) yn darparu i Weinidogion Cymru ddatblygu Cynllun Llywodraeth Leol, fel a ganlyn:

**73 Cynllun Llywodraeth Leol**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddatblygu cynllun (“Cynllun Llywodraeth Leol”) yn esbonio sut y maent, wrth arfer eu swyddogaethau, yn cynnig cynnal a hyrwyddo Llywodraeth Leol yng Nghymru.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru -

(a) adolygu’r Cynllun Llywodraeth Leol yn barhaus, ac

(b) ail-wneud neu adolygu’r cynllun o bryd i’w gilydd.

(3) Wrth benderfynu ar y darpariaethau i’w cynnwys yn y Cynllun Llywodraeth Leol, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw gyngor a sylwadau a gawsant gan y Cyngor Partneriaeth.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi’r Cynllun Llywodraeth Leol ar ôl ei gynhyrchu ac os byddant yn ei ail-wneud; ac, os byddant yn adolygu’r cynllun heb ei ail-wneud, rhaid iddynt gyhoeddi naill ai’r diwygiadau neu’r cynllun ar ei newydd wedd (fel y gwelant orau).

(5) Os bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cynllun neu ddiwygiadau o dan is-adran (4), rhaid iddynt osod copi o’r cynllun neu’r diwygiadau gerbron y Cynulliad.

(6) Ar ôl bob blwyddyn ariannol, rhaid i Weinidogion Cymru –

(a) cyhoeddi adroddiad yn nodi sut y cafodd y cynigion yn y Cynllun Llywodraeth Leol eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol honno, a

(b) gosod copi o’r adroddiad gerbron y Cynulliad.